OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 713

## Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010

### RHAN 2

Sefydlu Tribiwnlys Prisio Cymru

**Llywydd y Tribiwnlys Prisio**

**11.**—(1) Rhaid gwneud y penodiad cyntaf i swydd y Llywydd yn unol â Rhan 1 o Atodlen 2 ond yn ddarostyngedig i Ran 2 o'r Atodlen honno.

(2) Mewn achos dilynol pan â swydd y Llywydd yn wag, rhaid i aelodau'r Tribiwnlys Prisio, yn unol â Rhan 1 o Atodlen 2, benodi person i fod yn Llywydd.

(3) Pan nad oes penodiad wedi ei wneud yn unol ag Atodlen 2, rhaid i Weinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â pha bynnag rai o aelodau'r Tribiwnlys Prisio ag y tybiant yn briodol, benodi un o aelodau'r Tribiwnlys Prisio i fod yn Llywydd.

(4) Bydd y Llywydd a benodir dan y rheoliad hwn yn dal y swydd hyd nes digwydd pa un bynnag o'r canlynol sy'n digwydd gyntaf—

(a) diwedd y cyfnod o ddwy flynedd ar ôl y dyddiad yr ymgymerodd y Llywydd â'i swydd (ac at ddibenion y paragraff hwn, rhaid ystyried bod yr apwyntai cyntaf i swydd y Llywydd yn ymgymryd â'r swydd ar 1 Gorffennaf 2010);

(b) y Llywydd yn peidio â bod yn aelod o'r Tribiwnlys Prisio;

(c) hysbysiad o ymddiswyddiad y Llywydd o dan baragraff (5) yn cael effaith;

(ch) hysbysiad terfynu o dan baragraff (6) yn cael effaith.

(5) Caiff y Llywydd ymddiswyddo drwy hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen, gan roi o leiaf un mis o rybudd.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â pha bynnag rai o aelodau'r Tribiwnlys Prisio ag y gwelant yn dda, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Llywydd, derfynu ei benodiad yn Llywydd.

(7) Os yw'r Llywydd yn analluog, oherwydd salwch, absenoldeb neu unrhyw reswm arall, i gyflawni swyddogaethau'r Llywydd o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i ba bynnag aelod o'r Cyngor Llywodraethu a bennir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor gyflawni'r swyddogaethau hynny.

(8) Caiff y Llywydd awdurdodi cynrychiolydd rhanbarthol i ymgymryd â swyddogaeth y Llywydd o benodi o dan reoliad 9(1); ac yn y paragraff hwn, nid yw "cynrychiolydd rhanbarthol" yn cynnwys dirprwy gynrychiolydd rhanbarthol.